Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Beth wnaethom rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024



# Pwy ydym ni

**Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth**

Ni yw'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC).



Rydym yn sicrhau bod **nyrsys**, **bydwragedd** a **chymdeithion nyrsio** yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i wneud eu swydd mewn ffordd ddiogel a charedig.



Fel hyn bydd pobl yn fwy diogel, iachach ac yn ymddiried yn ein gwasanaethau.

Cofrestr
Helen O'Mahony
Michelle Newman
Krishna Azim
Kai Chung
Zofia Kowlczyk
Angela Brown
Santiago Silva

Mae gennym 3 prif swydd:

1. Rydym yn cadw rhestr o'r holl bobl a all weithio fel **nyrsys** a **bydwragedd** yn y DU. Rydym hefyd yn cadw'r rhestr o **gymdeithion nyrsio** yn Lloegr. Gelwir hyn yn **gofrestr**.





Rydym yn dweud beth sydd angen i bobl ei ddysgu i fod ar ein cofrestr, a gallwn ni eu tynnu oddi arni os bydd angen pan fydd pethau'n mynd o chwith.



2. Rydym yn cefnogi **nyrsys**, **bydwragedd** a **chymdeithion nyrsio** i wneud eu gwaith yn dda. Rydym hefyd yn eich cefnogi pan fyddwch angen ein cymorth




3. Rydym yn gweithio i helpu iechyd a gofal cymdeithasol i wella i bawb. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau eraill i edrych ar broblemau a gwella pethau.




Mae rhai geiriau mewn **print trwm**. Ceir rhestr o'r hyn y maent yn ei olygu ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

## Yr hyn a wnaethom rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024




Fe wnaethom lawer y llynedd. Diolch i bawb wnaeth helpu.

### Fe wnaethom ymchwilio i rai o'r pryderon a oedd gan bobl am nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio



Gall pobl ddweud wrthym pan ydym yn rhoi gofal gwael iddynt. Digwyddodd hyn bron i 6,000 o weithiau y llynedd.

Rydym yn gwrando ar y pryderon hyn ac yn penderfynu a oes angen i ni ymchwilio iddynt.




Yn ystod y blynyddoedd diwethaf nid ydym wedi bod yn gwneud hyn mor gyflym ag y dymunwn.

Mae'n ddrwg iawn gennym am hyn.



Cytunodd ein cyngor i wario £30 miliwn i wella sut rydym yn ymchwilio I'r pryderon sydd gan bobl am eu gofal. Bydd hyn yn gwneud ein penderfyniadau yn gyflymach ac yn fwy diogel.




## Fe wnaethom gadw cofrestr manwl gywir

Rhestr o enwau yw **cofrestr**.

Mae **manwl gywir** yn golygu bod y wybodaeth yn hollol iawn.




Mae ein cofrestr yn rhestru'r holl bobl a all weithio fel nyrs neu fydwraig yn y DU, neu fel cydymaith nyrsio yn Lloegr.



Mae'n rhaid i bobl sy'n byw y tu allan I'r DU basio rhai profion i ymuno â'r gofrestr.



Roedd problem gyda rhai o’r profion hyn a safwyd ar gyfrifiaduron yn Nigeria.




Fe wnaethom ymchwilio I’r broblem hon a gwneud yn siŵr mai dim ond y bobl a oedd wedi llwyddo yn y profion allai ymuno â’r gofrestr.




## Fe ddysgon ni fwy am y bobl ar ein cofrestr

Ar ddiwedd mis Mawrth 2024 roedd mwy na 826,000 o bobl ar ein cofrestr.



Y rhain oedd:

- mwy na 765,000 o nyrsys



- mwy na 44,000 o fydwragedd



- ychydig dros 6,300 a allai wneud y ddwy swydd



- ychydig dros 10,500 o gymdeithion nyrsio.



Mae llawer o wahanol bobl ar ein cofrestr:

- dywedodd 11 o bob 100 wrthym eu bod yn ddynion



- daw 28 o bob 100 o gefndiroedd leiafrifol ethnig



- mae gan ychydig dros 3 o bob 100 anabledd.



## Fe wnaethom gefnogi nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio fel y gallent barhau i roi gofal da i chi

Mae nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn gweithio'n galed iawn ac maent dan lawer o bwysau.




Maent yn defnyddio ein **safonau**.

**Safonau** yw'r pethau y mae angen i bobl eu gwybod i allu gwneud y swydd yn dda.




Rydym yn cadw golwg ar ein safonau gwaith hyd yn oed pan yw gofal iechyd yn newid. Bydd gwirio yn gwneud pethau'n haws.



Rydym yn cefnogi cleifion sy’n derbyn gofal a’u teuluoedd, fel eu bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl.



## Fe wnaethom gefnogi myfyrwyr

Rydym yn gweithio gyda phrifysgolion i wneud yn siŵr eu bod yn addysgu myfyrwyr i roi gofal da.



Roedd gennym rai pryderon am y cwrs bydwreigiaeth ym Mhrifysgol Eglwys Crist Caergaint, felly dywedon ni wrthynt am beidio â chynnal y cwrs.



Fe wnaethom hyn i sicrhau bod menywod, babanod a theuluoedd yn cael y gofal gorau.




Fe wnaethom helpu'r myfyrwyr i symud i Brifysgol Surrey i orffen eu cwrs.



Rydym yn helpu mwy o bobl i ddod yn nyrsys a bydwragedd drwy weithio gyda phum prifysgol newydd a fydd yn addysgu myfyrwyr.

# Yr arian a wariwyd gennym



Costiodd £108 miliwn i ni i wneud ein gwaith.



Fe wnaethom wario bron i hanner yr arian hwnnw yn ymchwilio i bryderon am rai nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio.




Costiodd £5.6 miliwn i ni i ofalu am ein cofrestr a'i chadw'n gyfredol.

# Edrych ymlaen




Rydym wedi nodi ein cynlluniau ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.



Dyma ein pum nod:

1. Rydym wedi gwneud cynllun i wella sut rydym yn ymchwilio I'r pryderon sydd gan bobl am eu gofal.



Byddwn yn gwario mwy o arian nag erioed o'r blaen i gyflawni ein nodau dros y 18 mis nesaf.



2. Byddwn yn sicrhau bod yr **NMC** yn lle gwell i weithio fel bod pobl yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt a'u bod yn hapus yn eu swyddi.



Rydym wedi gofyn i bobl o’r tu allan I’r NMC ein helpu i wneud hyn.

nmc
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth



3. Rydym am I’r NMC fod y gorau y gall fod.



4. Byddwn yn cadw llygad ar yr hyn sy’n digwydd ledled y DU fel y gall hynny helpu nyrsys, cymdeithion nyrsio a bydwragedd ledled y DU i roi gofal diogel a charedig.




5. Byddwn yn parhau i weithio’n galed fel bod gan bobl ymddiriedaeth yn y gofrestr a’n gwasanaethau.

# Beth mae'r geiriau'n ei olygu

**Manwl gywir**
Yn golygu bod y wybodaeth yn gywir.

**Bydwragedd**
Pobl sydd yn cael eu hyfforddi i roi gofal diogel a charedig i helpu pobl sydd â phroblemau iechyd ac i helpu pobl i gadw'n iach.

**Nyrsys**
Pobl sydd yn cael eu hyfforddi i roi gofal diogel a charedig i helpu pobl sydd â phroblemau iechyd ac i helpu pobl i gadw'n iach.

**Cymdeithion nyrsio**
Mae hon yn rôl yn Lloegr. Mae cymdeithion nyrsio yn cael eu hyfforddi i weithio gyda nyrsys i gefnogi a gofalu am gleifion.

**NMC**
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

**Cofrestr**
Rhestr o'r holl bobl sydd â'r hyfforddiant cywir ac sy'n bodloni ein safonau i weithio fel nyrs neu fydwraig yn y DU, neu gydymaith nyrsio yn Lloegr. Pobl sy'n gallu rhoi gofal da, diogel.

**Safonau**
Dyma'r pethau y mae angen i bobl eu gwybod i allu gwneud y swydd yn dda.

## Cydnabyddiaeth

Cynlluniwyd a chynhyrchwyd y papur hwn gan wasanaeth EasyRead yn Inspired Services Publishing Ltd. Cyf ISL145 24. Mehefin 2024.

**www.inspiredservices.org.uk**

**Speaking Up Together** -
Creu gwybodaeth EasyRead.

Y mae ffotograffau dewisedig yn dod o gasgliad Inspired.Pics EasyRead ac ni cheir eu defnyddio yn unman arall heb ganiatâd ysgrifenedig gan Inspired Services Publishing Ltd.

**www.inspired.pics**

**Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth**

**Rheolydd nyrsio a bydwreigiaeth ar gyfer Lloegr, Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).**

**23 Portland Place, London W1B 1PZ**
**T 020 7637 7181**
**www.nmc.org.uk**